Gwybodaeth i Gleifion

NHS

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

Defnyddio haemodialysis yn y cartref ac mewn ysbyty

Medi 2002

Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n llunio arweiniad ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol ar gyfer pobl sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer cleifion a'u gofalwyr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, bydd NICE yn edrych ar ba mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd ar ba mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gwneuthurwyr y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, y cleifion a'u gofalwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt. Bydd pob arfarniad yn cymryd tua 12 mis i'w gwblhau.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer haemodialysis (triniaeth ar gyfer methiant arennol) a gynhelir yn y cartref ac mewn ysbyty a rhoi arweiniad a fyddai'n helpu'r GIG i benderfynu pa bryd y dylid cynnig haemodialysis yn y lleoliadau hyn.

Beth yw methiant arennol?

Organau yn y corff sy'n cael gwared ar gynnyrch gwastraff a gormodedd dŵr o'r gwaed yw'r arennau. Mae gan y rhan fwyaf o bobl ddwy aren. Caiff y cynnyrch gwastraff a'r gormodedd dŵr a gaiff eu cymryd o'r gwaed gan yr aren eu cludo i lawr tiwb (y 'wreter') sy'n cysylltu'r aren â'r bledren ac yna cânt eu pasio allan o'r corff fel wrin.

Beth yw haemodialysis?

Mae ‘methiant arennol’ yn golygu nad yw’r arennau yn gweithio (neu’n gweithredu) yn gywir. Pan fydd methiant arennol yn ddifrifol iawn, bydd angen cymryd swyddogaeth yr aren drosodd. Un ffordd o wneud hyn yw cael gwared ar sylweddau gwastraff a gormodedd dŵr o’r gwaed yn artiffisial, gan ddefnyddio proses a elwir yn ‘dialysis’. Ceir dau fath o ddialysis – dialysis peritoneol a haemodialysis. Mae trawsblannu’r aren/arennau yn ffordd arall o adfer swyddogaeth yr aren.

Dim ond â haemodialysis y mae’r arweiniad hwn yn ymdrin.

Yn ystod haemodialysis, caiff y gwaed ei hidlo i gael gwared ar gynnyrch gwastraff y tu allan i’r corff, gan ddefnyddio peiriant haemodialysis, a elwir yn ‘beiriant arennau’ yn aml. Mae gwaed yn llifo allan o’r corff i lawr tiwb i mewn i’r peiriant lle y caiff y cynnyrch gwastraff a’r gormodedd dŵr eu gwaredu a dychwelir y ‘gwaed glân’ i’r corff.

Mae’r arweiniad hwn yn ymdrin â haemodialysis ar gyfer cleifion sydd â methiant arennol difrifol iawn a pharhaol – cyfeirir at y cyflwr fel ‘methiant arennol difrifol’ gan feddygon (mae ‘arennol’ yn golygu yn ymwneud â’r arennau). Mae’n rhaid cynnal yr haemodialysis yn rheolaidd – fel arfer fe’i cynhelir 3 gwaith yr wythnos ac mae pob sesiwn o haemodialysis yn cymryd tua 4 awr.

Ble y gellir cynnal haemodialysis?

Caiff y rhan fwyaf o gleifion eu sesiynau haemodialysis mewn uned arennol ysbyty neu uned arennol lloeren - hynny yw, uned a leolir i ffwrdd o brif uned arennol yr ysbyty.

Ond mae gan rai cleifion yr opsiwn o gael peiriant haemodialysis yn eu cartrefi eu hunain. Nid yw haemodialysis yn y cartref yn addas i bawb a hwyrach y byddai'n well gan lawer o gleifion gael eu triniaeth mewn uned arennol. Bydd pa un a all claf gael haemodialysis yn y cartref yn dibynnu ar ba un a ydyw ef neu hi'n addas yn glinigol ac ar ffactorau eraill fel pa un a oes gan y cartref y gofod a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer y peiriant haemodialysis a'r offer arall sydd ei angen ac, efallai, pa un a oes rhywun a all helpu'r claf gyda'r dialysis a bod ar gael i ddelio ag unrhyw argyfwng. Hwyrach y bydd angen gwneud newidiadau i'r cartref, fel newidiadau i'r cyflenwad trydan neu'r pibellau dŵr, cyn y gellir gosod peiriant haemodialysis. Mae'n rhaid dysgu rhywun sy'n mynd i gynnal haemodialysis yn y cartref – ac unrhyw un sy'n mynd i helpu – sut i ddefnyddio'r peiriant a beth i'w wneud os bydd problemau'n codi.

Ymhlith y manteision sy'n gysylltiedig â chynnal haemodialysis yn y cartref yn hytrach na mewn ysbyty mae peidio â gorfod teithio i'r uned arennol a chael mwy o ddewis o ran pryd y cynhelir yr haemodialysis, felly gallai fod llai o amharu ar fywyd bob dydd. Ar y llaw arall, mae rhai cleifion a'u

Beth mae NICE wedi ei argymell ynglŷn â haemodialysis yn y cartref a haemodialysis mewn ysbyty?

gofalwyr yn ei chael hi'n anodd ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gynnal y weithdrefn, a all fod yn llafurus, a delio ag unrhyw broblemau.

Dim ond â lle y cynhelir haemodialysis (hynny yw, yn y cartref neu mewn uned arennol) y mae'r argymhellion a wnaed gan NICE yn ymwneud. Nid ydynt yn ymdrin â materion eraill sy'n gysylltiedig â haemodialysis, fel pa mor aml y dylid ei gynnal, neu sut mae'n cymharu â ffyrdd eraill o drin methiant arennol. A dim ond i unigolion sydd wedi cael asesiad manwl o'u hopsiynau o ran triniaeth ac yr ystyrir bod haemodialysis yn driniaeth addas ar eu cyfer y mae'r argymhellion hyn yn berthnasol.

Mae NICE wedi gwneud yr argymhellion canlynol.

Dylai pob claf sy'n addas ar gyfer haemodialysis yn y cartref gael cynnig y cyfle i ddewis rhwng cael haemodialysis yn y cartref neu mewn uned arennol. Yn gyffredinol, cleifion sy'n addas ar gyfer haemodialysis yn y cartref yw'r rhai:

- sy'n gallu ac sy'n fodlon dysgu sut i gynnal y weithdrefn a pharhau â'r driniaeth
- sydd wedi bod mewn cyflwr sefydlog tra'n cael dialysis
- nad oes ganddynt unrhyw broblemau penodol sy'n gysylltiedig ag afiechyd yr arennau neu nad oes ganddynt afiechydon eraill a fyddai'n golygu ei bod yn anodd neu'n beryglus cynnal haemodialysis yn y cartref

- sydd â phibellau gwaed sy'n addas ar gyfer rhoi'r cathetrau (tiwbiau) sy'n cludo'r gwaed i'r peiriant dialysis ac oddi wrtho
- sydd â gofalwr (neu fwy nag un gofalwr) sydd wedi penderfynu, ar ôl trafod yr holl faterion, i helpu gyda'r haemodialysis (nid yw hyn yn berthnasol i gleifion a all gynnal yr haemodialysis ar eu pen eu hunain)
- sydd â chartref sydd eisoes â digon o ofod a chyfleusterau i osod a defnyddio'r peiriant arennau, neu y gellir addasu eu cartref i ddarparu'r gofod a'r cyfleusterau sydd eu hangen.

Cyn penderfynu a yw haemodialysis yn y cartref yn opsiwn addas i unigolyn, dylid cynnal asesiad llawn o anghenion gofal iechyd ac amgylchiadau cymdeithasol a chartref y claf. Dylai'r tîm sy'n gyfrifol am ofal y claf roi gwybodaeth llawn i'r claf, ac unrhyw un a allai fod yn ofalwr, am yr hyn sy'n gysylltiedig â chynnal haemodialysis yn y cartref neu mewn uned arennol, a pha effaith y gallai gael ar eu bywydau hwy ac ar fywydau'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref. Dylid rhoi'r cyfle i ddarpar ofalwyr fynegi eu barn wrth y meddyg ar eu pen eu hunain, pan na fydd y claf yno.

Dylai cleifion sy'n cael haemodialysis mewn uned arennol na chynigiwyd yr opsiwn o gael haemodialysis yn y cartref iddynt o'r blaen ond a fyddai'n hoffi ystyried y posibilrwydd gael eu hailasesu, ar yr amod nad yw eu

cyflwr clinigol yn golygu nad yw haemodialysis y cartref yn opsiwn posibl.

Pa bryd bynnag y penderfynir y dylid mynd ati i gynnal haemodialysis yn y cartref, dylid cael cyfle i ailystyried y penderfyniad yn ddiweddarach os bydd unrhyw newid yn amgylchiadau'r claf.

Dylai cleifion a'u gofalwyr gael hyfforddiant cyn dechrau cynnal haemodialysis yn y cartref. Mae angen cymorth tîm o bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd arnynt hefyd y gellir cysylltu â hwy yn hawdd ac a fydd yn ymateb yn gyflym. Am nad yw'n bosibl weithiau i gleifion gynnal dialysis yn eu cartrefi fel y gwnânt fel arfer (er enghraifft, am fod gofalwr yn sâl neu i ffwrdd o'u cartref), dylai fod cyfleusterau ar gael iddynt i gael dialysis mewn uned arennol pan fo angen.

Beth y dylwn i ei wneud nesaf?

Dylech drafod yr arweiniad hwn gyda'ch arbenigwr os oes gennych broblem ar yr arennau a allai olygu bod angen triniaeth â haemodialysis arnoch neu os ydych yn cael haemodialysis mewn uned arennol ar hyn o bryd a bod gennych ddiddordeb yn y posibilrwydd o gael haemodialysis yn y cartref.

A fydd NICE yn edrych eto ar ei arweiniad?

Bydd. Bydd NICE yn edrych ar yr arweiniad hwn eto ym mis Awst 2005.

Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn a roddwyd i'r GIG ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir gofyn am gopi o'r arweiniad hefyd gan Linell Ymateb y GIG drwy ffonio 0870 1555 455 a dyfynnu cyfeirnod N0160.

Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd a'ch bod yn dymuno cael gwybod mwy am fethiant arennol a haemodialysis ymwelwch â gwefan Galw Iechyd Cymru ar www.nhsdirect.nhs.uk. Os hoffech siarad â Galw Iechyd Cymru, gallwch eu ffonio ar 0845 46 47.

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

11 Strand
London
WC2N 5HR

Web: www.nice.org.uk